

Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 23 Ionawr 2017 am 7:00p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorydd Geraint Woolford (Maer), Y Cynghorydd James Bryan (Dirprwy Faer).
Y Cynghorwyr Stephen Beach, June Derry, Ken Hawkins,
Rosie Hughes-Moseley, Menna Jones, Simeon Jones, Ian Lewney,
Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Heather Williams ac Emrys Wynne.

164. CYFLWYNIAD GAN ELERI JONES, RHEOLWR SWYDDFA CYNGOR AR BOPETH RHUTHUN

Croesawodd y Maer Eleri Jones, Rheolwr Swyddfa Cyngor ar Bopeth Rhuthun. Esboniodd ei bod hi wedi bod yn ymwneud â CAB am 18 mlynedd, a'i bod wedi dod yn Rheolwr cangen Rhuthun ym mis Medi 2016. Mae'r gangen wedi bod yn gweithredu am 52 o flynyddoedd, gyda dau aelod o staff cyflogedig a 17 o wirfoddolwyr ar hyn o bryd, ac maent yn cynnal ymgyrch recriwtio ar hyn o bryd i ddenu gwirfoddolwyr newydd. Dywedodd bod cryn dipyn o'r gwaith yn deillio o ddiwygiadau lles, gyda phobl yn cael eu trosglwyddo o Lwfans Byw i'r Anabl i Daliadau Annibyniaeth Personol, a ddim yn cael eu hasesu'n gywir ac felly'n colli eu budd-daliadau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf roedd CAB Rhuthun wedi cynorthwyo cleientiaid i hawlio £840,000 mewn budd-daliadau. Esboniodd ei bod yn costio £7,321.00 y flwyddyn i gynnal swyddfa Rhuthun, gyda'r gwariant yn bennaf ar gostau teithio, llyfrau cyfraith achos arbenigol a threuliau cyffredinol swyddfa. Byddai unrhyw gyfraniad gan y Cyngor Tref yn cael ei glustnodi ar gyfer defnydd cangen Rhuthun. Cynigir gwasanaeth allgymorth yn Llangollen, Corwen a Marchnad Ffermwyr Rhuthun hefyd. Diolchodd y Maer iddi am ei chyflwyniad a gwahoddodd gwestiynau gan yr aelodau. Gofynnodd aelod am fanylion nifer y cleientiaid o Rhuthun oedd wedi derbyn cymorth. Hefyd awgrymwyd bod CAB Rhuthun yn gofyn i Gyngor Tref Llangollen a Chyngor Cymuned Corwen am gyfraniad.

Yn dilyn rhagor o drafodaeth ar ôl i Eleri Jones adael y siambr, cynigiwyd ac eiliwyd gwneud cyfraniad o £2,000.00 i CAB Rhuthun a phleidleiswyd o blaid hyn.

PENDERFYNWYD: gwneud cyfraniad o £2,000.00 i CAB Rhuthun.

165. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Bob Costain ac Elisabeth Culshaw.

166. DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Heather Williams fudd personol yn eitem 1 gan fod ei gwr yn drysorydd anrhydeddus CAB Sir Ddinbych a datganodd y Cynghorydd Emrys Wynne fudd personol ac ariannol yn eitem 12 gan ei fod yn Gadeirydd Menter Iaith Sir Ddinbych.

167. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer am yr ymweliadau a ganlyn ers y cyfarfod blaenorol.

- 20.12 Parti Nadolig Prifysgol y Drydedd Oes
- 22.12 Ymweld â Mrs Enid Hughes yn Ysbyty Rhuthun ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed.
- 09.01 Cyfarfod â chynrychiolwyr o Blachere ynghylch y goleuadau Nadolig
- 10.01 Cyfarfod Grŵp Penodi Clerc y Dref a chyfarfod Tîm y Dref
- 13.01 Cyfarfod â'r Heddlu
- 16.01 Cyfarfod â Mr Mike German, Prif Weithredwr Gogledd Cymru, Banc NatWest a chyfarfod y Grŵp Dinesydd Da
- 18.01 Gwasanaeth angladd y Cynghorydd Raymond Bartley

168. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. James Bryan Cyfarfod Pwyllgor Rheoli Canolfan Awelon, cyfarfod Grŵp Penodi Clerc y Dref, cyfarfod â Mr Mike German, Prif Weithredwr Gogledd

Cyng. Stephen Beach	Cymru, Banc NatWest a chyfarfod y Grŵp Dinesydd Da.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Hubbub – Fforwm Pobl dros 50 oed.
Cyng. Ken Hawkins	Banc Bwyd x 4 a Grŵp Penodi Clerc y Dref.
Cyng. Menna Jones	Cyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru ym Mae Colwyn, dirprwy ar ran y Cyng. Emrys Wynne.
Cyng. Rosie Hughes-Moseley	Gwasanaeth Cristingl yn Eglwys Sant Pedr, Banc Bwyd, ymweliad Ysgol Borthyn a chyfarfod y Grŵp Dinesydd Da.
Cyng. Ian Lewney	Cyfarfod Elusennau Tref Rhuthun, cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da a gwasanaeth angladd y Cynghorydd Raymond Bartley.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod Tîm y Dref.
Cyng. Heather Williams	Dathliadau'r Nadolig a goleuo'r goleuadau Nadolig, ymweliad i Tesco at wirfoddolwyr casgliad y Banc Bwyd, cyfarfod yn Llys Erw ynghylch y prosiect Calan Mai, Fforwm Pobl dros 50 oed yn Llys Erw, Cinio Nadolig Cymunedol Tesco, cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun, ymweld â Throsnant gydag Ysgol Borthyn, Eglwys Sant Pedr – canu'r clychau â llaw ac arddangosfa golygfeydd y geni, tîm OWL Watch yn Tesco, cyfarfod Tîm y Dref, cyfarfod Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch, cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da, cyfarfod Ymlaen Rhuthun a chyfarfod y Fforwm Pobl dros 50 oed yn Llys Erw.
Cyng. Emrys Wynne	Cyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru ym Mae Colwyn, dirprwy ar ran y Cyng. Anne Roberts.
	Cyfarfod Grŵp Penodi Clerc y Dref.

169. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: *cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2016 yn gywir.*

170. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

171. Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2017.

PENDERFYNWYD: *derbyn cofnodion y cyfarfod.*

171. Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2016 a 9 Ionawr 2017.

PENDERFYNWYD: *derbyn cofnodion y cyfarfod.*

172. YR IS-BWYLLGOR CYMORTH ARIANNOL

Cyflwynodd Cadeirydd yr Is-bwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2016.

PENDERFYNWYD: *cymeradwyo'r taliadau a argymhellwyd a derbyn cofnodion y cyfarfod.*

173. YSGOL BORTHYN

Roedd y Cynghorydd Ian Lewney wedi gofyn am gael yr eitem hon ar yr agenda yn dilyn torri'r drws i sied storio ar safle'r ysgol ac achosi difrod i deganau ac offer chwarae'r disgyblion.

Cydnabu bod llawer iawn wedi digwydd ers y digwyddiad, gyda chyfraniadau ariannol ac offer newydd gan bobl leol, Clwb Rotari Rhuthun ac eraill, a oedd wedi goresgyn y rheswm am gael yr eitem ar yr agenda. Awgrymodd aelod y gallai'r ysgol wneud cais am gymorth ariannol yn y modd arferol, petai angen.

PENDERFYNWYD: *nodi'r sefyllfa.*

174. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL GAN FENTER IAITH SIR DDINBYCH

Gadawodd y Cynghorydd Emrys Wynne y siambr yn ystod y drafodaeth ynghylch yr eitem hon. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais am gymorth ariannol gwerth £945.00. Nodwyd cynnwys y ffurflen gais a'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Roedd yr aelodau'n awyddus i gael manylion yn manylu costau'r digwyddiadau i'w cynnal yn Rhuthun, nifer yr unigolion a fyddai'n elwa a'r budd i Rhuthun.

PENDERFYNWYD: *gofyn i'r Clerc gysylltu â Menter Iaith Sir Ddinbych i ofyn am ragor o wybodaeth fanylach.*

175. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL GAN YSGOL BRYNHYFRYD

Ystyriodd yr aelodau gais am gymorth ariannol gwerth £15,000.00 gan Ysgol Brynhyfryd tuag at gysgodfannau ar gyfer y disgyblion. Gofynnodd yr aelodau a oedd polisi newydd wedi'i gyflwyno yn yr ysgol a oedd yn golygu bod y disgyblion y tu allan yn ystod y cyfnodau egwyl ac amser cinio. Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch sicrhau nad oedd y strwythurau'n cael eu difrodi yn ystod y cyfnodau mae'r ysgol ar gau, a ph'un ai oedd y Cyngor Ysgol o blaid y cysgodfannau hyn.

PENDERFYNWYD: *cysylltu â'r ysgol i gael rhagor o wybodaeth gefndirol ac atebion i'r cwestiynau uchod.*

176. DIWEDDARIAD YNGHYLCH BANC NATWEST, RHUTHUN

Cyflwynodd y Maer adborth yn dilyn cyfarfod gyda Mr Mike German, Prif Weithredwr Gogledd Cymru Banc NatWest. Dywedodd fod Mr German wedi datgan nad oedd unrhyw benderfyniad i gau banc wedi'i wyrdroi, a'u bod yn ystyried dod â'r banc symudol i faes parcio Tesco am 1.5 awr ar fore Gwener a'i fod wedi ymweld â'r Swyddfa Bost ac roedd yn bwriadu cyfarfod â'r rheolwr i drafod a allai'r Swyddfa Bost gynnig gwasanaethau bancio i gwsmeriaid NatWest, gyda lle cownter ychwanegol o bosibl. Ychwanegodd y byddent yn cael prisiant ar yr adeilad yn nes at y dyddiad cau, ac y byddai'n cael ei gynnig ar werth ar y farchnad agored, ac y byddai unrhyw gynigion gan y Cyngor Tref 'yn y grochan gymysgu' gyda'r cynigion eraill. Ychwanegodd y Dirprwy Faer y byddai'r peiriant 'twill yn y wal' yn cael ei ddadgomisiynu a'i dynnu ymaith hefyd. Dywedodd y Cynghorydd Emrys Wynne fod rhai tudalennau'n weddill i'w casglu gan fusnesau yn dilyn dosbarthu deiseb yn erbyn cau'r banc, ac y byddai'r ddeiseb yn cael ei chyflwyno'n fuan.

PENDERFYNWYD: *nodi'r sefyllfa.*

177. BANER CYNGOR TREF RHUTHUN YNG NGHAE PELDROED CLWB PELDROED RHUTHUN

Derbyniwyd costau'r faner gan Glwb Peldroed Rhuthun. Byddai'n costio £100 i lunio'r faner a'r hysbysfwrdd, a £250 ar gyfer hysbysebu ar ymyl y cae ynghyd â phecyn gwefan a Gweplyfr, a fyddai'n gost flynyddol. Pleidleisiodd yr aelodau o blaid bwrw ymlaen â hyn, a gofyn am gysylltu eto â Chlwb Rygbi Rhuthun er mwyn cael baner hysbysebu debyg wrth eu cae nhw.

PENDERFYNWYD: *bwrw ymlaen â'r faner hysbysebu yng Nghlwb Peldroed Rhuthun ar gost o £350.00.*

178. CWMNI YSWIRIANT ZURICH

Dywedodd y Clerc fod y Cyngor Tref mewn cytundeb tymor hir â chwmni yswiriant Zurich, ac y byddai'r gost adnewyddu'r yswiriant ar gyfer 2017-18 yn £4,438.44, o'i gymharu â £4,380.02 y llynedd, gyda'r gwahaniaeth yn bennaf oherwydd y cynnydd yn y Dreth Premiwm Yswiriant.

PENDERFYNWYD: *talw cost adnewyddu'r yswiriant ar gyfer 2017-18.*

179. CINIO SUL DINESIG

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried talu anfoneb am £1,406.00 i Glwb y Dyffryn am y cinio Sul Dinesig o'r Gronfa Ddinesig.

PENDERFYNWYD: *talw'r anfoneb uchod o'r Gronfa Ddinesig.*

180. GOHEBIAETH

- i. Scope – dyddiadau casgliadau o dŷ i dŷ.
- ii. Rali Cambrian 11 Chwefror 2017 – llythyr oddi wrth Peter Holland, Ysgrifennydd y Rali.
- iii. Llythyr ynghylch arwyddion ar yr A55 gan Ann Jones AC Dyffryn Clwyd.
- iv. Ystyried dod yn gynghorydd? – sesiynau Cyngor Sir Ddinbych i'r rhai â diddordeb mewn bod yn gynghorydd sir.

Cyfeiriodd y Maer at lythyr arall oddi wrth Ann Jones AC, yn gwahodd cynrychiolwyr o Gyngor Tref Rhuthun i gyfarfod yn Ninbych ynghylch arwyddion brown ar yr A55 ar 27 Ionawr.

PENDERFYNWYD: *nodi'r ohebiaeth, a bod y Maer, Clerc y Dref a'r Cynghorydd Stephen Beach yn cynrychioli'r Cyngor Tref yn y cyfarfod gydag Ann Jones AC.*

181. AMCANGYFRIFON ARIANNOL 2017-18

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel y Swyddog Ariannol Cyfrifol, amcangyfrifon drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2018. Amcangyfrifwyd y byddai'r gwariant yn 2017/18 yn £128,720.00. Aeth y Clerc trwy bob eitem yn y gyllideb, yn cynnwys awgrym am gronfa o £10,000.00 ar gyfer cymorth ariannol a dyrannu £30,000 ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol megis y potensial i ddiogelu adeilad Banc NatWest ar gyfer y gymuned. Hefyd cyfeiriodd y Clerc at lythyr oddi wrth Undeb Credyd Cambrian yn datgan na fyddai mewn sefyllfa i dalu didfend i gyfrifon cynilo. Mae'r praesept angenrheidiol i dalu am y gwariant arfaethedig yn £128,720.00, sy'n gyfystyr â Threth Gyngor Band D o £53.90, cynnydd bach o'i gymharu â 2016/17, ond dim ond ychydig dros £1 yr wythnos ar gyfer eiddo Band D.

PENDERFYNWYD: *derbyn yr amcangyfrifon a'r praesept sy'n ofynnol.*

182. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Rhagfyr 2016.

PENDERFYNWYD: *derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Rhagfyr 2016.*

183. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD: *cymeradwyo talu'r cyfrifon a ganlyn.*

973	SLCC	Adnewyddu aelodaeth flynyddol y Clerc	£139.00
974	Cyngor Sir y Fflint	Ffi actiwaraid am fod yn aelod o Gronfa Bensiwn Clwyd	£900.00
975	Radio Glan Clwyd	Apêl Teganau Nadolig 2016	£10.00
976	Cyng. G. Woolford	Cysuron Nadolig y Maer	£40.00
D.D	BT Business	Gwasanaethau ffôn	* £107.06
S.O.	Canda Copying Ltd	Rhentu'r llungopiwr a chopïau isafswm	* £129.14
977	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol	* £27.44
978	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	* £14.81
979	IT Williams Co Ltd	Cludo'r rhwystrau ar gyfer y Farchnad Nadolig a'u dychwelyd	* £180.00
980	Glascoed Timber	Gwasanaethu'r biniau baw cŵn 24 Hydref – 19 Rhagfyr	* £240.00
981	NWMALC	2 ginio yn dilyn y cyfarfod ar 20 Ionawr	£32.00
982	Fineline	Tâp selo x 2	* £6.34
983	Cyllid y Wlad	Treth incwm ac yswiriant gwladol	£252.83
984	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd	* £90.00
985	Eglwys Sant Pedr, Rhuthun	Lifoleuadau	£704.75

184. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *cadarnhau mai dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref fydd nos Lun, 27 Chwefror 2017 am 7:00pm.*